OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 384 (Cy. 122)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU
# ANIFEILIAID, CYMRU

## Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

*Cymeradwywyd gan Senedd Cymru*

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *22 Mawrth 2021* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *24 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *31 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, bod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft o'r offeryn gerbron Senedd Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddi(**2**).

(**1**) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) am y diffiniad o "*devolved authority*". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o, a pharagraff 53(2) o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p.1).

(**2**) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).